

Fôn Roberts  
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol  
Swyddfeydd y Cyngor  
Llangefni  
Ynys Môn  
LL77 7TW

Dyddiad: 04 Dachwedd 2021

Annwyl Gyfarwyddwr,

## **Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) – Archwiliad Sicrwydd 2021: Cyngor Sir Ynys Môn**

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi canfyddiadau ein archwiliad sicrwydd a gynhaliwyd rhwng 14 a 18 Mehefin 2021. Diben y archwiliad sicrwydd hwn oedd gweld pa mor dda y mae gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol yn parhau i helpu a chefnogi oedolion a phlant, gan ganolbwyntio ar ddiogelwch a llesiant.

### **Trosolwg**

Ym mis Mawrth 2020, gohiriodd AGC ei rhaglen arferol mewn ymateb i bandemig COVID-19 er mwyn galluogi darparwyr ac awdurdodau lleol i ganolbwyntio'n llawn ar ymateb i'r amgylchiadau heriol. Ailddechreuodd rhaglen ddiwygiedig o wiriadau sicrwydd ym mis Medi er mwyn rhoi sicrwydd ynghylch sut mae pobl yn cael eu diogelu a sut mae eu llesiant yn cael ei hyrwyddo yn ystod y pandemig. Gwnaethom ystyried diogelwch a llesiant y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, neu y gall fod angen iddynt eu defnyddio, diogelwch y gwasanaethau y maent yn eu defnyddio a diogelwch a llesiant y bobl sy'n gweithio yn y gwasanaethau hynny. Roedd ein prif lwybrau ymholi yn seiliedig ar bedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ac rydym wedi cofnodi ein barn a'n canfyddiadau yn unol â'r rhain, sef: Pobl – Llais a Rheolaeth, Atal, Partneriaethau ac Integreiddio, Llesiant.

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)  
Swyddfa Llywodraeth Cymru  
Sarn Mynach  
Cyffordd Llandudno  
LL31 9RZ  
[www.arolygiaethgofal.cymru](http://www.arolygiaethgofal.cymru)

☎ 0300 790 0126  
✉ [CIW@gov.wales](mailto:CIW@gov.wales)

Care Inspectorate Wales (CIW)  
Welsh Government Office  
Sarn Mynach  
Cyffordd Llandudno  
LL31 9RZ  
[www.careinspectorate.wales](http://www.careinspectorate.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

## **Gwnaethom ganolbwyntio ar y canlynol:**

1. Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn cyflawni ei swyddogaethau statudol o ran cadw pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt yn ddiogel, a hyrwyddo eu llesiant, yn ystod y pandemig?
2. Beth mae'r awdurdod lleol yn ei wneud fel nad oes angen i blant dderbyn gofal; ac a yw plant yn dychwelyd adref at eu teuluoedd yn ddigon cyflym, lle mae'n ddiogel iddynt wneud hynny?

## **Crynodeb o'r canfyddiadau a blaenoriaethau ar gyfer gwella:**

Mae'r awdurdod lleol wedi parhau i gyflawni ei ddyletswyddau statudol o dan amgylchiadau heriol iawn. Bu arweinyddiaeth gref gan uwch-swyddogion, sydd wedi gwneud defnydd da o ganllawiau Llywodraeth Cymru i asesu arferion gwaith a rhoi cyfarwyddyd ar ddiwygiadau yn ôl y gofyn.

**Pobl – llais a rheolaeth – Gwnaethom ofyn:** Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod lleisiau pobl, gofalwyr ac ymarferwyr yn cael eu clywed, eu bod yn gwneud dewisiadau ar sail gwybodaeth ac yn cynnal rheolaeth dros eu bywydau, gan gydbwysu hefyd yr argymhellion a'r gofynion a wnaed gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru er mwyn cyfyngu ar ledaeniad COVID-19?

Cynigir y cyfle i bobl siarad yn eu dewis iaith yn gyson. Gofynnir am farn y bobl a chaiff eu barn ei chofnodi lle bo angen. Mae cyswllt â'r bobl wedi parhau drwy gydol y pandemig.

Mae'r ymarferwyr a'r rheolwyr yn nodi'n gyson pa mor dda y mae'r arweinwyr a'r tîm uwch-reolwyr yn eu cefnogi, a gwnaethant siarad yn gadarnhaol am yr hyfforddiant a'r cymorth y maent wedi parhau i'w cael gan eu cydweithwyr a'r rheolwyr.

Yn hollol wahanol i'r ffordd roedd gweithwyr cymdeithasol yn cyflawni eu dyletswyddau o'r blaen; cynhelir asesiad risg o gyswllt wyneb yn wyneb gyda chymorth rheoli a goruchwyliaeth, ac yn y rhan fwyaf o amgylchiadau mae wedi dod i ben yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

Er gwaethaf yr heriau, mae'n amlwg bod ymarferwyr yn gwneud ymdrechion sylweddol er mwyn parhau i ymateb i'r bobl fel unigolion mewn amgylchiadau unigryw. Maent wedi addasu'n gyflym i ffyrdd newydd o weithio, a thrwy ddefnyddio technoleg gwybodaeth (TG) maent wedi gwella'r ffordd y maent yn cyfathrebu â'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol eraill. Y bwriad yw cadw rhai o'r ffyrdd newydd o gysylltu â phobl a pharhau i gyfathrebu drwy TG hyd yn oed wrth i fwy o gyfleoedd godi i weithio wyneb yn wyneb unwaith eto.

Mae'r plant yn elwa'n uniongyrchol ar wybodaeth, sgiliau a hyder cynyddol yn sgil yr hyfforddiant perthnasol a ddarperir i'r ymarferwyr a'r rhieni. Yn ddiweddar, mae ymarferwyr wedi cael hyfforddiant mewn ymarfer sy'n cael ei lywio gan drawma, ac mae rhai rhieni wedi cymryd rhan mewn rhaglen trais domestig gyda'r nod o ystyried effaith trais domestig ar blant. Mae hyn wedi parhau drwy gydol y pandemig.

Mae arbenigedd cynyddol hefyd mewn gwasanaethau oedolion ym maes galluedd meddyliol a threfniadau amddiffyn rhyddid yn yr awdurdod lleol. Er ei fod yn gyfyngedig, roedd y gwaith a welwyd yn ystod y archwiliad sicrwydd hwn o safon uchel iawn ac yn rhoi hyder y gellir diogelu oedolion nad oes ganddynt alluedd meddyliol rhag cyfyngiad diangen ar eu rhyddid. Mae uwch-swyddogion yn cefnogi rhannu gwybodaeth a sgiliau a byddant am sicrhau bod pob ymarferydd ym maes gwasanaethau oedolion a phlant mewn sefyllfa i gydymffurfio â chyflwyno trefniadau amddiffyn rhyddid ac arferion gorau mewn amrywiaeth o faterion.

Mae swyddogion Adolygu a Diogelu Annibynnol (IRSOs) yn dangos eu hyder i herio ac uwchgwyfeirio unrhyw broblemau o ran ymarfer neu unrhyw ymarfer nad yw'n bodloni'r disgwyliadau. Mae ganddynt ffocws cryf ar sicrhau bod lleisiau plant yn cael eu clywed, a defnyddio dulliau creadigol er mwyn sicrhau bod gweithgareddau ymgysylltu â'r plant yn parhau drwy gydol yr heriau parhaus wrth ddarparu gwasanaethau. Mae eu pwyslais, yn briodol felly, yn parhau i fod ar ddatrys diffygion yn lleol a sicrhau'r canlyniadau gorau i blant fel unigolion. Bydd yr awdurdod lleol am barhau i wella hyder IRSOs, gan gydnabod eu cryfderau a'u heriau mewnol fel ased.

Mae cynnydd yn nifer y bobl sy'n defnyddio taliadau uniongyrchol ar yr ynys. Fodd bynnag, mae nifer y bobl hŷn sy'n defnyddio taliadau uniongyrchol yn parhau i fod yn isel. Mae rhywfaint o ddealltwriaeth bod hyn yn rhannol o ganlyniad i bellter daearyddol a natur y cymorth hyblyg sydd ei angen. Beth bynnag fo'r rhesymau, bydd yr awdurdod lleol am sicrhau bod mwy o bobl yn cael cyfleoedd go iawn i ddefnyddio taliadau uniongyrchol i reoli eu gwasanaethau gofal a chymorth eu hunain.

Mae'r arweinwyr yn cadw golwg ar y gwasanaethau rheng flaen a ddarperir. Maent yn creu cyfleoedd i wella'r broses a'r ymarfer, yn unol â'r newidiadau diweddar mewn deddfwriaeth a datblygiadau mewn technoleg gwybodaeth (TG). Mae'r mentrau yn cynnwys cyfrannu at ymgyrchoedd cenedlaethol i wella effeithiolrwydd System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) drwy dreialon lleol, a sicrhau bod pob ymarferydd a rheolwr yn cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn hyfforddiant ac adolygu eu hymarfer eu hunain yn unol â'r arbenigedd cynyddol yn eu gwasanaethau eu hunain. Gall yr awdurdod lleol ddangos ei fod am ddysgu o brofiad a pharhau i fod yn agored i gyfleoedd newydd.

**Atal – Gwnaethom ofyn:** I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn llwyddo i hybu prosesau atal a lleihau'r angen am fwy o gymorth neu gymorth ffurfiol gan asiantaethau statudol?

Mae hyrwyddo diogelwch a llesiant pobl agored i niwed ar Ynys Môn wedi bod yn flaenoriaeth allweddol i'r awdurdod lleol dros y flwyddyn ddiwethaf. Gall ymarferwyr roi disgrifiad da o'r rhwystrau lluosog i lesiant y mae rhai pobl yn eu hwynebu o ddydd i ddydd. Clywsom sut mae problemau iechyd meddwl a dim digon o arian yn cymhlethu anawsterau o ran cael addysg, hyfforddiant a chyflogaeth i rai pobl, a sut y mae'r cyfnodau hir o ynysu yn ystod y cyfyngiadau symud wedi'u herio nhw ymhellach.

Disgrifiwyd ymateb yr awdurdod lleol i arolygwyr fel dull gweithredu 'ati gyda'n gilydd', gan ddefnyddio swyddogion o bob un o'r cyfarwyddiaethau i wynebu'r heriau wrth iddynt godi. Roedd llawer o heriau'n cael eu hwynebu a'u goresgyn, ac roedd cydberthnasau gwaith newydd yn cael eu meithrin. Cafodd yr awdurdod ei herio yn benodol oherwydd diffyg cyfarpar diogelu personol ar ddechrau'r pandemig; gweithiodd yn galed i ateb yr her ac, erbyn hyn, mae'n nodi ei fod wedi cynnal lefel o ddarpariaeth sy'n briodol i ddiwallu anghenion lleol.

Mae gwasanaethau dydd i oedolion, gwasanaethau seibiant, a gwasanaethau 'busnes fel arfer' eraill wedi cau neu wedi cynnig gwasanaethau wedi'u cwtogi dros gyfnod estynedig. Fodd bynnag, mae'r awdurdod lleol wedi gweithio'n galed i reoli risgiau a theilwra cymorth amgen i anghenion penodol. Mae enghreifftiau cadarnhaol yn cynnwys swyddog trais domestig, ac mae swyddog cydberthnasau iach wedi parhau i wneud gwaith unigol gyda phlant y mae risg y bydd rhywun yn camfanteisio'n rhywiol arnynt a rhieni sy'n dioddef trais domestig.

Fodd bynnag, clywsom hefyd am enghreifftiau lle roedd pobl yn wynebu pwysau parhaus a chynyddol oherwydd diffyg seibiant o gyfrifoldebau gofalu sylweddol, teimlo'n ynysig, ac unigrwydd. Bydd yr awdurdod lleol am sicrhau ei fod yn parhau i adolygu'r sefyllfa hon, gan gofio pwysigrwydd gwasanaethau seibiant i ofalwyr a'r heriau o gadw pobl yn ddiogel yn ystod y pandemig. Mae rhai enghreifftiau o arferion da yn datblygu yng Nghymru a gellid gofyn am gymorth gan gydweithwyr ym maes penaethiaid gwasanaethau i oedolion Cymru gyfan.

Mae gwasanaethau cymorth wedi parhau i oruchwylio'r cyswllt uniongyrchol rhwng plant a'u teuluoedd biolegol er mwyn cydymffurfio â Gorchmynion Llys. Dywedwyd wrthym fod yr awdurdod lleol wedi cael eu canmol gan y Llysoedd am asesu sefyllfa 'teuluoedd' fesul achos, gan osgoi polisi cyffredinol o roi'r gorau i gyswllt uniongyrchol, a gwelsom dystiolaeth o'r gwaith rhagweithiol hwn ar waith.

Mae nifer y gofalwyr maeth sydd ar gael ar yr ynys wedi cynyddu yn ddiweddar drwy ymgyrch wedi'i thargedu, gan gynyddu'r posibilrwydd y bydd ymarferwyr yn gallu

paru rhieni maeth i ddiwallu anghenion unigol pob plentyn. Mae'r awdurdod lleol yn cynnig amrywiaeth o gymorth i ofalwyr maeth, gan gynnwys lle parcio am ddim a llai o dreth gyngor, ac mae wedi canfod ffyrdd o ddarparu gliniaduron ac offer TG dros y flwyddyn ddiwethaf er mwyn helpu i oresgyn heriau ychwanegol. Efallai y bydd gofalwyr maeth yn elwa ymhellach os caiff yr amrywiaeth o gymorth a gynigir ei ddarparu mewn ffordd symlach.

**Partneriaethau ac Integreiddio – Gwnaethom ofyn:** I ba raddau y gall yr awdurdod lleol fodloni ei hun yr achubir ar gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth mewn ffordd gadarnhaol er mwyn gwneud y mwyaf o gynlluniau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a sicrhau y darperir gwasanaethau integredig mewn modd cynaliadwy?

Mae'r awdurdod lleol wedi dangos ei fod yn cydnabod pwysigrwydd datblygu cyfalaf cymdeithasol ar yr ynys ac wedi dewis buddsoddi mewn adnoddau cymunedol dros nifer o flynyddoedd gyda rhywfaint o lwyddiant. Mae'r gwaith hwn yn parhau, gan adeiladu ar gryfderau'r gymuned a chreu adnoddau newydd yn y gymuned, gan gynnwys darpariaeth tai arbenigol i blant ac opsiynau trafndiaeth wedi'u teilwra i'r rhai a allai gael budd ohonynt.

Mae'r partneriaethau â'r darparwyr gofal a chymorth annibynnol y gwnaethom siarad â nhw yn dda. Gwnaethant roi disgrifiadau cadarnhaol o'r ffordd roedd cymorth gan yr awdurdod lleol a rhwng darparwyr wedi helpu i rannu dulliau dysgu a syniadau, gan gynnig cymorth drwy'r hyn y maent yn ei ddisgrifio fel cyfnod anodd a gofidus iawn.

Roedd partneriaeth gwaith hirsefydlog â'r sector gwirfoddol (Medrwn Môn) a grwpiau cymunedol yn golygu y gellid darparu llwyfan ar gyfer adeiladu ymateb y gymuned i'r heriau sy'n deillio o'r pandemig. Mae nifer o enghreifftiau cadarnhaol o sut mae gweithio mewn partneriaeth yn cyfrannu at hyrwyddo llesiant pobl. Roedd un o'r enghreifftiau yn cynnwys sefydlu 37 tîm cymorth ardal, gyda dros 850 o wirfoddolwyr a oedd yn helpu pobl gyda thasgau megis siopa a chasglu presgripsiynau. Ehangodd y gwaith partneriaeth hwn i gynnwys sefydlu canllawiau ar gyfer cludo meddyginiaeth yn ddiogel ochr yn ochr â chydweithwyr o'r bwrdd iechyd lleol.

Mae gweithgorau rhwng yr awdurdod lleol, byrddau iechyd lleol, ac amrywiaeth o ddarparwyr gwasanaeth wedi cynyddu a pharhau drwy gydol y flwyddyn mewn ymdrech i wneud y defnydd gorau o adnoddau a'u blaenoriaethu. Mae'r pwysau presennol i ddarparu mwy o ofal a chymorth i oedolion yn eu cartrefi eu hunain yn heriol iawn mewn rhai ardaloedd ar Ynys Môn fel y mae ledled Cymru.

Gwaethygir y broblem hon gan anawsterau recriwtio a chadw staff, a sector gofal annibynnol sy'n ei chael hi'n anodd cynnal gwasanaethau mewn cyfnod a ddisgrifir fel cyfnod trawmatig. Cydnabyddir bod pobl wedi blino ac wedi 'chwythu plwc', a bod

y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) a chyflogwyr yn y sectorau lletygarwch a manwerthu wedi colli gweithwyr.

Mae rhestrau aros sylweddol am wasanaethau therapi galwedigaethol, sy'n golygu nad yw llawer o bobl yn gallu cael gfael yn amserol ar gymorth ymarferol sy'n ddigonol i gefnogi eu llesiant. Mae'r awdurdod lleol wedi defnyddio gweithwyr asiantaeth ychwanegol ym maes therapi galwedigaethol i leihau'r rhestrau aros, ac mae'n trafod â'r bwrdd iechyd lleol ynghylch darparu gwasanaethau therapi galwedigaethol. Rhaid i'r awdurdod lleol fynd i'r afael â'r ffordd y gellir darparu gwasanaeth mewn cymunedau i atal dyblygu atgyfeiriadau at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a dirywiad diangen yn iechyd a llesiant pobl.

Mae recriwtio a chynnal gweithlu profiadol sydd wedi'i hyfforddi'n ddigonol yn fater cenedlaethol. Ar lefel leol yn Ynys Môn, lle mae màs critigol gweithwyr yn gymharol isel, daw'r mater yn un sylweddol yn gyflym iawn mewn rhai amgylchiadau. Ynghyd â chefnogi ymdrech genedlaethol i gefnogi gwelliant, rhaid i'r awdurdod lleol wneud pob ymdrech i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n ddoeth.

**Llesiant – Gwnaethom ofyn:** I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn hybu llesiant, gan sicrhau bod pobl yn cynnal eu diogelwch ac yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol sydd o bwys iddynt?

Mae gan yr awdurdod lleol ddealltwriaeth dda o'i rôl wrth ddiogelu pobl sy'n wynebu risg o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu eu niweidio. Mae'r tîm diogelu yn meddu ar wybodaeth a sgiliau da, ynghyd â'r parodrydd a'r hyder i ddarparu gwasanaethau ymyrryd proffesiynol pan fo angen. Gallai sicrhau bod pob tîm yn gwneud defnydd cyson o'r sgiliau yn y tîm wella canlyniadau i bobl ar draws gwasanaethau oedolion.

Yn yr un modd, roedd tystiolaeth o ddealltwriaeth dda o Weithdrefnau Diogelu Cymru mewn perthynas â phlant a phobl ifanc sy'n wynebu risg o niwed, a thystiolaeth bod y gweithdrefnau hyn wedi'u rhoi ar waith yn effeithiol. Gwelsom dystiolaeth bod y gofynion statudol yn cael eu bodloni, gwaith partneriaeth yn effeithiol i ddiogelu plant, a thystiolaeth o waith dadansoddi da i asesu lefel y risg.

Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr wedi ymateb yn dda i weithio gartref ac wedi ymfalchïo mewn cynnal ffocws eu gwaith er gwaethaf yr heriau. Mae lefelau cynyddol ymddiriedaeth yr awdurdod lleol mewn ymarferwyr a'r pwyslais ar ganlyniadau yn hytrach nag allbynnau wedi creu cydlyniant ac wedi cynnal ymdeimlad o ddiben yn ystod cyfnod anodd iawn.

Mae rhai bylchau ac oedi dealladwy wrth gofnodi gwaith cymdeithasol. Wrth i wasanaethau ddatblygu i'r 'normal newydd', bydd cyfle gobeithio i ganolbwyntio unwaith eto ar feysydd ymarfer y mae angen eu moderneiddio, gan sicrhau eu bod

yn cael eu cofnodi'n amserol mewn ffeiliau achos yn WCCIS. Ar hyn o bryd, bydd yr Awdurdod Lleol am barhau i fyfyrion ar y cynnydd cadarnhaol a wnaed eisoes.

Mae enghreifftiau cadarnhaol o gydweithio rhwng y gwasanaethau cymdeithasol a thai, sy'n cyflwyno prosiectau er mwyn helpu pobl i ailgysylltu â'i gilydd ac aros yn eu cymunedau, a hynny drwy weledigaeth gorfforaethol gyffredin a chyllid gofal canolraddol. Mae cynlluniau ar sail adeiladau yn cynnwys cartrefi grwpiau bach o'r enw Cartrefi Clyd i blant, adnewyddu unedau yn Ucheldre, a chynlluniau ar gyfer trydydd cynllun gofal ychwanegol. Cynigir gwasanaethau cymunedol peripatetig drwy gydlynwyr ardaloedd lleol.

Erys heriau parhaus mewn systemau a phrosesau mewn gwasanaethau oedolion, gan gynnwys heriau y tu allan i'r cyngor gan WCCIS a heriau mewnol o sicrhau bod cofnodion yn amserol, yn gymesur ac yn berthnasol. Bydd pob rheolwr ac ymarferydd am barhau i ddiweddarau eu hymarfer, cydnabod eu cryfderau eu hunain, a'u gallu i greu newid o ran sut a ble maent yn gweithio er budd defnyddwyr y gwasanaeth, eu hunain a'r awdurdod lleol. Mae aelodau'r cyngor yn cydnabod ac yn cymryd perchnogaeth o'u cyfrifoldebau i hyrwyddo llesiant yn eu cymunedau, ac yn arwain, yn cefnogi ac yn herio gwaith swyddogion y cyngor. Mae eu harbenigedd yn parhau i dyfu wrth i hyfforddiant a datblygiad parhaus gael eu cynnig, eu derbyn a'u defnyddio.

Mae aelodau arweiniol a chynghorwyr ar bwllgorau gofal cymdeithasol ac ar draws portffolios yn dangos dealltwriaeth dda o rôl gwasanaethau cymdeithasol a pharodrwydd i gefnogi'r awdurdod lleol i wella drwy heriau a gweithgareddau ymgysylltu cadarnhaol.

#### **Dull:**

- gwnaethom adolygu'r ddogfennaeth a ddarparwyd gan yr awdurdod lleol
- gwnaethom siarad â phobl a oedd yn derbyn, neu a oedd wedi derbyn, gofal a chymorth, gan gynnwys pobl ifanc â phrofiad o'r system gofal
- gwnaethom edrych ar 18 o ffeiliau achos
- gwnaethom gynnal naw cyfweiliad olrhain achosion ag ymarferwyr
- gwnaethom ddsbarthu wyth arolwg i'r canlynol; bobl oedd â phrofiad o ofal a chymorth, darparwyr, sefydliadau trydydd sector, staff, arweinwyr diogelu, yr heddlu a gweithwyr addysg a gofal iechyd proffesiynol
- gwnaethom siarad ag ymarferwyr, rheolwyr, darparwyr, penaethiaid gwasanaeth, cyfarwyddwr, aelodau etholedig a phartneriaid

## **Y Camau Nesaf**

Rydym wedi nodi cryfderau a meysydd i'w gwella. Byddwn yn adolygu cynnydd y meysydd hyn drwy ein cyfarfodydd adolygu gwerthuso perfformiad â'r penaethiaid gwasanaeth a'r cyfarwyddwr. Rydym yn disgwyl y bydd y meysydd i'w gwella a nodwyd gennym yn cael eu cynnwys yng nghynlluniau gwella'r awdurdod lleol. Hoffem ddiolch i bawb a wnaeth ein helpu i gynnal y archwiliad sicrwydd hwn ac i'r bobl a'r staff hynny a siaradodd â ni.

Gweler ein Hysbysiad Preifatrwydd yn <https://arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-bersonol>

Yn gywir,



**Lou Bushell-Bauers**

Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol

**Arolygiaeth Gofal Cymru**